

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2023

Adroddiad Cam Mis Chwefror





RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

30/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

16/03/2023



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80535-613-4

© Hawlfraint y Goron 2023

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2023: Adroddiad Cam Mis Chwefror

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80535-613-4
14 Mawrth
© Hawlfraint y Goron 2023



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth ac eithrio lle nodir yn wahanol.

<https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>

Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau	2
2. Cefndir a Methodoleg.....	4
3. Perfformiad 2022	5
4. Disgwyliadau ac Archebion ar gyfer 2023.....	9
5. Effeithiau Heriau Economaidd Cyfredol	13
6. Cynaliadwyedd	21

1. Prif Ganfyddiadau

Roedd nifer yr ymwelwyr yn 2022 yn uwch o'i gymharu â 2021 ond yn dal i lawr o'i gymharu â chyn COVID-19

- 1.1 Cafodd 43% o fusnesau fwy o gwsmeriaid yn 2022 nag yn 2021, ac roedd gan draean arall (33%) yr un lefel. Cafodd tua chwarter (24%) lai o gwsmeriaid.
- 1.2 Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r diwydiant wedi gwella i lefelau cyn-bandemig o hyd. Cafodd tua un o bob pump (21%) fwy o gwsmeriaid yn 2022 o gymharu â'r lefel arferol cyn COVID-19, a chafodd 43% yr un lefel. Cafodd 36% lai o gwsmeriaid.
- 1.3 Meysydd carafanau yw'r unig sector hyd yma sydd wedi adennill lefelau ymwelwyr cyn y pandemig, gyda 35% o fusnesau â mwy o gwsmeriaid o gymharu ag 14% sydd â llai o gwsmeriaid.
- 1.4 Mewn cyferbyniad, mae'r sector darparwyr gweithgareddau yn dal yn llawer is na'r lefelau cyn COVID-19, gyda 10% o fusnesau â mwy o gwsmeriaid o gymharu â 44% â llai o gwsmeriaid. Darparwyr gweithgareddau hefyd yw'r unig sector sy'n is ar y cyfan o'i gymharu â 2021. Mae'n ymddangos bod costau byw yn amharu ar eu lefelau cwsmeriaid.
- 1.5 Mae 2023 yn flwyddyn anodd ei rhagweld oherwydd bod tuedd tuag at archebion munud olaf wrth i ddefnyddwyr aros i weld beth gallant ei fforddio yn ystod yr amseroedd hyn o gostau byw uchel.

Mae heriau economaidd yn rhwystro buddsoddiad

- 1.6 Mae 37% yn dweud bod y sefyllfa economaidd bresennol yn effeithio ar eu gallu i gyflogi staff, mae 31% yn dweud ei bod yn effeithio ar fuddsoddiad yn y cynnyrch, ac mae 28% yn gwario llai ar farchnata.
- 1.7 Mae 23% yn dweud eu bod yn disgwyl gwneud digon o elw eleni i fuddsoddi'n sylweddol yn y busnes os ydynt yn dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, nid yw 57% yn disgwyl gwneud digon o elw i wneud hynny, ac nid yw 20% yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Peth effaith ar oriau agor busnesau

- 1.8 Dywed 11% fod y sefyllfa economaidd yn golygu na allant agor cymaint ag y hoffent ei wneud yn ddelfrydol. Y prif ganlyniad yw cau yn ystod cyfnodau tawelach hir (yn enwedig y gaeaf) a'r rheswm yw nad oes digon o gwsmeriaid i dalu am y costau gweithredu uchel yn ystod yr amseroedd hynny, yn enwedig biliau ynni.

Llawer o weithredu ar gynaliadwyedd

- 1.9 Mae'r rhan fwyaf (81%) o fusnesau yn cymryd rhyw fath o gamau i weithredu'n fwy cynaliadwy. Y camau mwyaf cyffredin yw 'lleihau gwastraff deunyddiau / mwy o ddeunyddiau

ailgylchadwy' (39%), 'lleihau'r defnydd o ynni' (38%) a 'cheisio ffynonellau ynni cynaliadwy' (26%).

Peth hyder eleni er gwaethaf heriau economaidd ac archebion araf

- 1.10 Mae 17% o weithredwyr yn 'hyderus iawn' ynglŷn â chynnal eu busnes yn broffidiol eleni, ac mae 50% arall yn 'eithaf hyderus'. Mae costau gweithredu uchel yn bryder sylweddol ac mae angen archebion mawr ar fusnesau yn ystod yr haf, yn enwedig i wneud iawn am adegau tawelach y flwyddyn. Ar ôl pwyso a mesur, mae gweithredwyr yn disgwyl y bydd hynny'n digwydd, er y gall hyn fod ar y funud olaf.

2. Cefndir a Methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn edrych yn ôl ar 2022 ac yn cwmpasu'r flwyddyn i ddod. Mae pynciau llosg y tro hwn yn cynnwys gweithredu'n gynaliadwy ac effeithiau'r sefyllfa economaidd bresennol ar broffidioldeb, buddsoddiad a pharhau i fod ar agor.

Sut y cynhaliwyd yr arolwg?


- 2.2 Rydym wedi cynnal 900 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.3\%$. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru.

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	124	42	75	61	302
Llety hunanddarpar	86	52	81	42	261
Meysydd carafannau / gwersylla	49	21	23	9	102
Hosteli	8	9	5	5	27
Atyniadau	26	16	18	22	82
Gweithredwyr gweithgareddau	16	10	13	8	47
Bwyta / tafarndai / caffis	16	26	18	19	79
Cyfanswm	325	176	233	166	900

- 2.3 Mae 56% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau, ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.
- 2.4 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 6 a 22 Chwefror.

3. Perfformiad 2022

O'i gymharu â 2021 – fesul sector



Mae bron pob sector wedi cael mwy o gwsmeriaid nag yn 2021

- 3.1 Mae cyfran y busnesau sydd wedi cael blwyddyn well yn 2022 yn fwy na'r gyfran sydd wedi bod yn dawelach ym mron pob sector. Pe bai busnesau â llai o gwsmeriaid yn 2022 o'i chymharu â 2021, mae hyn weithiau oherwydd y bu 2021 mor brysur iddynt yn y cyfnod adfer ar ôl cyfyngiadau symud COVID-19.

"Roedd 2021 yn wallgof. Dwi erioed wedi gweld dim byd tebyg."
Llety â gwasanaeth, y Gogledd


- 3.2 Perfformiodd hosteli a bwyty / tafarndai / caffis yn arbennig o dda yn 2022 o'i chymharu â 2021, ond mae hyn yn rhannol oherwydd eu bod yn dal i fod yng nghanau cynnar adfer ar ôl y cyfyngiadau symud yn 2021.

"Rwy'n meddwl ei fod wedi bod yn ddwy neu dair blynedd anodd a dweud y gwir."
Hostel, y Canolbarth

"Rwy'n meddwl, oherwydd y newidiadau rydym wedi'u gwneud fel cwmni, ei fod yn ofnadwy yn ystod y cyfyngiadau symud, ond nawr oherwydd y newidiadau a'r dewisiadau rydym wedi'u gwneud, bydd yn gweithio allan yn dda."
Hostel, y De-orllewin

O'i gymharu â 2021 – fesul rhanbarth

C1a "Faint o gwsmeriaid oedd gennych chi yn 2022 o gymharu â 2021?"




Maint y sampl: 842
Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Perfformiodd y pedwar rhanbarth i gyd yn well yn 2022 nag yn 2021

3.3 Gwelwyd y cynnydd mewn twristiaeth y llynedd ar draws y pedwar rhanbarth yng Nghymru, heb unrhyw ranbarth yn sefyll allan fel un sy'n perfformio'n arbennig o well neu waeth na'r lleill.

O'i gymharu â haf arferol cyn COVID-19 – fesul sector

C1b "Faint o gwsmeriaid oedd gennych chi yn 2022 o gymharu â blwyddyn arferol cyn-Covid?"



Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Maint y sampl: 810

Dim ond meysydd carafannau sydd wedi cyrraedd y lefelau arferol cyn COVID-19

- 3.4 Fel y gwelsom yn y cam baromedr blaenorol (ar ôl haf 2022), dim ond meysydd carafannau sydd wedi llwyddo i ddychwelyd i lefelau cyn COVID-19 hyd yma. Mae pob sector arall yn dal i ymdrechu i fynd yn ôl i'r lefelau lle roeddent.
- 3.5 Dywed rhai gweithredwyr meysydd carafannau ei bod yn edrych yn debyg y bydd eu gwelliant yn parhau eleni.

“Rydyn ni'n gwneud yn well ar ôl Covid. Dwi'n meddwl bod llawer wedi prynu carafannau a faniau gwersylla yn ystod y pandemig ac, oherwydd yr argyfwng costau byw, yn dewis aros adref am wyliau rhatach. Maen nhw hefyd eisiau cael defnydd o'r carafannau neu faniau gwersylla newydd maen nhw wedi'u prynu.”

Parc carafannau, y Gogledd

“Mae gennym ni fwy o lefydd ar gyfer carafannau teithiol nawr gan fod y galw yn uchel iawn. Ers ailagor ar ôl Covid, rydym wedi mynd o 0 i 100 mewn dim o amser.”

Parc carafannau, y Gogledd

Amseroedd caled i weithredwyr gweithgareddau

- 3.6 Mae'r sector gweithredwyr gweithgareddau yn dal i fod ymhell i lawr ar y lefelau arferol cyn COVID-19 a dyma'r unig sector i fod â llai o gwsmeriaid o'i gymharu â 2021 hefyd. Mae'n ymddangos bod costau byw yn effeithio'n sylweddol ar nifer eu cwsmeriaid, ac mae hyn ar ben heriau gweithredol fel diffyg hyfforddwyr ers COVID-19 a chostau yswiriant.

“Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio'n aruthrol arnon ni. Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid. O'r blaen, nid oedd ein cwsmeriaid yn meddwl dwywaith ond, erbyn hyn, maen nhw'n poeni na allan nhw fforddio pethau.”

Gweithredwr gweithgareddau, y Gogledd

“Mae merlota yn mynd yn fwy a mwy costus oherwydd yr yswiriant ar gyfer y ceffylau.”


Gweithredwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

“Fe wnaeth y diwydiant ar ôl Covid ein gadael ni heb unrhyw hyfforddwyr.”

Gweithredwr gweithgareddau, y De-orllewin

O'i gymharu â haf arferol cyn COVID-19 – fesul rhanbarth

C1b "Faint o gwsmeriaid oedd gennych chi yn 2022 o gymharu â blwyddyn arferol cyn-Covid?"



Maint y sampl: 810

Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio

Llawer o amrywiaeth ranbarthol


3.7 Mae pob rhanbarth o Gymru yn dal i ymdrechu i ddod yn ôl i'r lefelau cwsmeriaid cyn COVID-19. Mae'n ymddangos bod busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru yn cael hyn yn arbennig o anodd.

"Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi cael 30% yn llai o gwsmeriaid na chyn y pandemig. Mae'n dawel iawn ym Mae Caerdydd o ran nifer yr ymwelwyr. Nid ydym yn gweld yr ymwelwyr tramor yr oedden ni'n arfer eu gweld ac mae llawer o ymwelwyr lleol yn mynd dramor."

Atyniad, De-ddwyrain

4. Disgwyliadau ac Archebion ar gyfer 2023

Disgwyliadau fesul marchnad



Rhagolwg rhesymol optimistaidd ar gyfer lefelau cwsmeriaid

- 4.1 Mae sylwadau agored yn dangos bod llawer o resymau i fod yn ansicr ar hyn o bryd ynghylch costau cynyddol a'u heffaith ar broffidioldeb net. Rydym yn ymdrin â hyn yn ddiweddarach yn Adran 5. Fodd bynnag, cyn belled ag y mae'r llinell uchaf yn y cwestiwn, disgwylir i lefelau cwsmeriaid fod yn iach eleni, er y gall llawer o'r archebion ddod i mewn funud olaf wrth i ddefnyddwyr aros i weld beth gallant ei fforddio.

"Mae archebion yn dod i mewn ond yn llawer arafach na'r llynedd. Dwi'n meddwl y bydd llu o archebion hwyr wrth i bobl aros i weld p'un a fyddant yn cael gwyliau yma neu dramor."

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Dwi'n meddwl ei fod yn mynd i fod yr un patrwm â'r llynedd: pobl yn archebu llawer yn nes at yr amser."

Parc carafannau, y Gogledd

- 4.2 Mae disgwyl i lefelau ymwelwyr o'r tu allan i Gymru yn arbennig fod yn uwch na'r llynedd. Mae rhai gweithredwyr yn gobeithio y gallai diffyg incwm gwario yn ystod y cyfnod heriol hwn olygu y bydd rhai pobl o'r DU sy'n mynd ar wyliau yn dod i Gymru yn lle mynd dramor.

"Dwi'n meddwl y gallai'r dirwasgiad fod yn dda i ni gan y bydd llai o bobl yn mynd dramor."

Parc carafannau, y Gogledd

"Rwy'n gobeithio y bydd pobol y DU yn blaenoriaethu teithio i Gymru yn hytrach na thramor ar gyfer eu gwyliau."

Llety hunanddarpar, y Canolbarth

- 4.3 Nid yw lefelau ymwelwyr tramor â Chymru wedi adfer o'r pandemig ond mae rhywfaint o optimistiaeth bod y farchnad hon yn symud i'r cyfeiriad cywir.

“Dwi wedi sylwi ein bod yn cael mwy o archebion o dramor eleni. Mae’n ymddangos eu bod nhw’n dod yn ôl.”

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Nid yw pawb yn rhannu'r optimistiaeth

- 4.4 Wrth i gostau byw uwch barhau i frathu, ni all rhai gweithredwyr weld eu perfformiad yn cyfateb â'r llynedd.

“Rydyn ni'n cael mwy o bobl yn canslo nawr ac mae archebion ar gyfer grwpiau llawer llai. Nid yw llawer o gwsmeriaid eisiau talu blaendaliadau oherwydd prisiau ynni.”

Gweithredwr gweithgareddau, y Canolbarth

“Rydym wedi sylwi bod ein cwsmeriaid sy'n deuluoedd wedi newid o fod y teulu i gyd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd i ddim ond y plant. Byddan nhw'n aros yn y car neu ond yn gwyllo ac rwy'n meddwl bod hyn oherwydd eu bod yn ceisio arbed arian.”

Gweithredwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

Gwahaniaethau yn ôl sector

- 4.5 Mae gweithredwyr yn y sector bwytai / tafarndai / caffis yn arbennig o optimistaidd am bob marchnad eleni o gymharu â'r llynedd. Mae 63% yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o Gymru, mae 47% yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o'r DU y tu allan i Gymru, ac mae 54% yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o dramor.

“Rydym yn obeithiol am y flwyddyn. Oherwydd bod pobl yn fwy cyndyn i wario eu harian eleni, rydyn ni'n meddwl y byddwn ni'n eu gweld nhw'n mynd ar wyliau gartref llawer mwy.”

Bwty, y Canolbarth

Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth


- 4.6 Canolbarth Cymru yw'r rhanbarth mwyaf optimistaidd o ran perfformiad disgwyledig o'i gymharu â 2022. Mae 40% yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o Gymru, mae 51% yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o'r DU y tu allan i Gymru, ac mae 43% yn disgwyl cael mwy o ymwelwyr o dramor.

“Rydyn ni'n teimlo'n gadarnhaol. Mae’n ymddangos bod mwy o dwristiaid yn y pentref eleni.”

Tafarn, y Canolbarth

Archebion ymlaen llaw (gweithredwyr lleety)

C3 "Wrth edrych ymlaen, faint o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ... ?" (cyfartaledd deiliadaeth yn cael ei ddangos.)



Mae'r defnydd cyfartalog a archebir ar gyfer pob mis yn cynrychioli busnesau sy'n cymryd archebion am y mis hwnnw

Mae tueddiad archebu munud olaf yn gwneud rhagfynegiadau yn anodd

- 4.7 Ar hyn o bryd, mae llawer o leoedd gwag ar gyfer y chwe mis nesaf, ond mae'r gwir berfformiad yn anodd ei ragweld ar sail archebion ymlaen llaw yn unig. Dywed gweithredwyr fod cwsmeriaid yn archebu lle yn fwy amlwg ar y funud olaf wrth iddynt aros i weld beth gallant ei fforddio.

"Rwy'n meddwl ein bod wedi bod yn lwcus gan fod gennym lawer o archebion ar gyfer y gwanwyn, felly gobeithio y bydd hynny'n parhau i mewn i'r haf ond, hyd yn hyn, nid ydym wedi cael llawer ar gyfer mis Gorffennaf na mis Awst. Rwy'n meddwl bod hynny oherwydd bod pobl yn fwy gofalus ynghylch archebu ymlaen llaw rhag ofn i'w biliau gynyddu."

Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

"Mae'n amlwg yn mynd yn dawelach gydag archebion ymlaen llaw. Dwi'n meddwl y bydd llawer o archebion munud olaf pan fydd pobl yn sylweddoli nad ydyn nhw mor dlawd ag y maen nhw'n meddwl a'u bod yn haeddu gwyliau."

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

- 4.8 O'r archebion ymlaen llaw sydd wedi'u gwneud, mae'n ymddangos bod tuedd tuag at arosiadau byrrach a phenwythnosau yn unig.

"Rydym yn sylwi mwy arosiadau byrrach yn hytrach nag wythnosau llawn ac nid ydym wedi cael unrhyw archebion ar gyfer gwyliau'r ysgol eto. Dwi'n meddwl bod pobl yn bod yn fwy gofalus."


Llety hunanddarpar, y Gogledd

“Mae ein harchebion yn isel ond rydym yn hyderus ar gyfer eleni. Y tueddiadau yr ydym wedi sylwi arnynt yw bod pobl eisiau archebion byrrach y dyddiau hyn (un i ddau ddiwrnod neu dri diwrnod). Maen nhw hefyd yn archebu’n hwyr iawn – tua wythnos neu hyd yn oed y diwrnod cyrraedd.”

Llety hunanddarpar, y De-orllewin


- 4.9 Mae lefel resymol o gysondeb mewn archebion ymlaen llaw ar draws y gwahanol sectorau llety a rhanbarthau yng Nghymru. Dangosir canlyniadau manwl fesul sector a mis isod.

Archebion ymlaen llaw fesul sector



5. Effeithiau Heriau Economaidd Cyfredol

Effeithiau ar fuddsoddiad ac agor



Mae sawl maes buddsoddi yn cael eu peryglu

- 5.1 Mae meintiau elw wedi mynd yn rhy dynn i lawer o fusnesau fuddsoddi fel y byddent yn dymuno ei wneud yn ddelfrydol. Hyd yn oed os gallant fforddio buddsoddi, mae'r ansicrwydd economaidd yn achosi i lawer o weithredwyr fod yn ofalus.

"A maint elw tynn iawn gennym, allwn ni ddim ailfuddsoddi mwyach, ni allwn ailaddurno, ni allwn drwsio pethau o amgylch y llety."

Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

"Ni allwn fforddio hysbysebu hynny o gwbl ... oherwydd prin y gallwn fforddio biliau, heb sôn am unrhyw farchnata."

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"Nid ydym yn disodli un aelod o staff sydd wedi gadael. Rydym wedi lleihau'r holl hysbysebion ond rydym yn cadw ein horiau agor yr un fath."

Atyniad, y De-orllewin

"Roeddwn i'n arfer talu £50 am gyfnod trosglwyddo [glanhau] ond erbyn hyn mae glanhawyr yn codi £120 a dim ond am wasanaeth 'mewn ac allan' yw hynny."

Llety hunanddarpar, y Gogledd

Gwahaniaethau yn ôl sector a rhanbarth

- 5.2 Ar y cyfan, nid yw'r gwahaniaethau fesul sector a rhanbarth yn arwyddocaol, ond mae De-orllewin Cymru yn gweld buddsoddiad sylweddol is mewn marchnata a staff:

- Mae 37% o fusnesau yn Ne-orllewin Cymru yn buddsoddi llai mewn marchnata (o gymharu â 25% ar draws gweddill Cymru)
- Mae 49% o fusnesau yn Ne-orllewin Cymru yn buddsoddi llai mewn cyflogi staff (o gymharu â 33% ar draws gweddill Cymru)


‘Ni allwn gau cymaint ag y dymunwn’

5.3 Er bod 11% o weithredwyr yn dweud na allant agor cymaint ag yr hoffent (a drafodir yn fanylach o dan y cwestiynau canlynol), mae sylwadau agored yn dangos bod gan lawer o fusnesau, yn enwedig llety hunanddarpar, y broblem i'r gwrthwyneb: mae'r 'rheol 182 diwrnod' arfaethedig i gymhwyso ar gyfer ardrethi busnes yn golygu na allant gau mwyach yn ystod cyfnodau aneconomaidd. Maent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa amhosibl rhwng arbed costau yn ystod cyfnodau tawelach a pharhau ar agor i gyrraedd targed anodd ac osgoi talu cyfradd dreth uwch.

“Dwi’n meddwl mai’r pryder yw’r newid newydd mewn ardrethi busnes. Mae’n destun pryder gorfod cadw’r archebion i arbed ar y cyfraddau hynny.”
Llety hunanddarpar, y Gogledd

“Mae nifer y diwrnodau yn cynyddu [i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes] yn effeithio arnom ni o ran aros yn broffidiol.”
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Effaith ar oriau agor



Gofynnwyd C5 i fusnesau nad ydynt yn aros ar agor cymaint ag yr hoffent (C4)

Cau ar adegau tawelach

5.4 Fel y gwelwyd yn C4, nid yw 11% o fusnesau yn aros ar agor cymaint ag y byddent yn dymuno. Nid yw hyn yn amrywio'n sylweddol fesul sector neu ranbarth.

- 5.5 Mae'r rhai sy'n cau'n amlach fel arfer yn dewis y gaeaf i wneud hyn oherwydd bod y galw yn is a bod biliau gwresogi yn uwch.

“Wrth symud ymlaen, oherwydd yr argyfwng ynni, rydym yn bendant yn cau rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror.”

Hostel, y Gogledd

“Rydym wedi rhoi'r gorau i gymryd archebion ar gyfer y gaeaf oherwydd y biliau gwresogi. Yn gyffredinol, mae ein costau wedi codi ac ni allwn gystadlu yn y farchnad gyda chynigion tramor.”

Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain


- 5.6 Mae strategaethau eraill yn cynnwys cau ar ddiwrnodau tawelach yr wythnos. Dywed rhai fod cyfnodau cau busnesau eraill yn yr ardal yn dylanwadu ar eu cyfnodau cau.

“Ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher, rhaid i ni gau oherwydd nid oes unman ar agor yn agos atom ni.”

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

Rhesymau dros oriau agor cyfyngedig

C6 (OS YN CYFYNGU AR ORIAU AGOR) "A pham fod y sefyllfa economaidd yn cyfyngu ar eich oriau agor neu eich cyfnodau agor? (Anogwch os oes angen, ticiwch bob un sy'n berthnasol)"



Maint y sampl: 95

Gofynnwyd C6 i fusnesau nad ydynt yn aros ar agor cymaint ag yr hoffent (C4)

Costau rhedeg a diffyg galw ar adegau penodol

- 5.7 Y prif reswm dros gau yn y cyfnodau tawelach yw nad oes digon o gwsmeriaid i dalu'r costau rhedeg – ynni neu fel arall.

“Doedden ni ddim yn arfer cau yn y gaeaf ond rhaid i ni bellach oherwydd costau.”
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

“Gyda phopeth [costau] yn cynyddu, nid oedd yn ymddangos bod modd cyfiawnhau aros ar agor dros y gaeaf.”
Parc carafannau, y De-ddwyrain

Ddim yn gallu cael gafael ar staff

- 5.8 Math gwahanol o reswm dros gau yw pan na all busnesau gael y staff. Mae llawer o swyddi yn dal yn anodd eu llenwi, gan gynnwys hyfforddwyr, glanhawyr a chogyddion. Hyd yn oed pan fydd busnesau'n llwyddo i recriwtio staff, weithiau maent yn canfod nad yw'r staff yn barod iawn i weithio mor galed ag y maent yn ei ddisgwyl.

“Methu â chael unrhyw staff yn y gegin na'r bar ar hyn o bryd.”
Bwyty, y De-ddwyrain


“Ni allaf ddod o hyd i staff dibynadwy bellach. Maen nhw bob amser yn ffonio'n sâl.”
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

“Rydym yn ei chael yn anodd cyflogi pob aelod o staff. Ni allwn ddod o hyd i hyfforddwyr neu staff medrus a fydd yn gweithio y tu allan i oriau arferol. Rydym hefyd yn cael trafferth dod o hyd i staff glanhau.”
Gweithredwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

“Mae cael gaffael ar staff yn anodd. Mae'n well ganddyn nhw fod ar eu ffonau nac yn y gwaith.”
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Lefel agor ddisgwyliedig

C7 (OS YN CYFYNGU AR ORIAU AGOR) "Yn ystod y flwyddyn hon, faint ydych chi'n disgwyl bod yn agored o'i gymharu â faint yr hoffech chi fod yn agored yn ddelfrydol oni bai am yr heriau economaidd rydych chi wedi'u disgrifio?"



Gofynnwyd C6 i fusnesau nad ydynt yn aros ar agor cymaint ag yr hoffent (C4)

Amrywiad mewn lefelau agor cyfyngedig


5.9 Mae llawer (60%) o'r rhai nad ydynt yn agor cymaint ag yr hoffent yn gweithredu ar 75–99% o'u horiau/diwrnodau agor dymunol, ond mae eraill yn cael eu taro'n galetach ac maent ar gau am gyfnodau sylweddol.

5.10 Yn y pegwn, mae rhai gweithredwyr o ddifrif yn ystyried rhoi'r gorau i fasnachu.

"Rydym yn bwriadu rhoi'r gorau i fasnachu gan nad oes gennym unrhyw alw."
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Hyder i weithredu'n broffidiol eleni

C8 "Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am redeg y busnes yn broffidiol y flwyddyn hon?"



Rhywfaint o hyder er gwaethaf heriau

5.11 Mae dau o bob tri (67%) o weithredwyr yn hyderus ynghylch rhedeg eu busnes yn broffidiol eleni. Er bod costau cynyddol yn rhoi pwysau ar broffidioldeb, mae llawer o weithredwyr yn obeithiol y bydd ganddynt ddigon o gwsmeriaid, yn enwedig yn yr haf, i gadw'r busnes yn hyfyw. Mae cael sylfaen gadarn o gwsmeriaid sy'n dychwelyd yn helpu llawer.

“Mae gennym ni lawer o gwsmeriaid ffyddlon sy'n dychwelyd – i gyd dros oedran penodol, sy'n hapus eto i gymdeithasu ar ôl Covid – felly mae'n edrych yn gadarnhaol am eleni.”

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

“Rydym yn hyderus iawn am y flwyddyn – rydym eisoes yn cael archebion. Rwy'n meddwl, er bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar bobl, bod ein sylfaen cwsmeriaid wedi hen sefydlu ers 30 mlynedd ac maen nhw'n dal i allu fforddio teithiau.”

Gweithredwr gweithgareddau, y De-orllewin

“Rwy'n meddwl y dylen ni gael cyfnod prysur yn ystod y gwanwyn a haf gobeithio.”

Gweithredwr gweithgareddau, y De-orllewin

Mae eraill yn aros yn bryderus i'r archebion ddod i mewn

5.12 Mae gweithredwyr yn gwybod bod defnyddwyr yn cael eu herio gan gostau byw. Gallai hyn olygu na fydd yr archebion sydd eu hangen arnynt yn digwydd eleni.

“Rydyn ni'n dal ein gwynt. Mae gan bobl bethau eraill i dalu amdanynt cyn y gallant feddwl am archebu gwyliau.”


Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

Gwahaniaethau yn ôl sector a rhanbarth

5.13 Y cyfrannau mwyaf o weithredwyr a ddywedodd eu bod yn 'hyderus iawn' i'w cael ymhlith hosteli (30%), meysydd carafannau (25%) a llety â gwasanaeth (20%). Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl rhanbarth yn sylweddol.

Maint yr elw a buddsoddiad

C9 "Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n disgwyl i'ch busnes berfformio eleni?"



Dim digon o elw i fuddsoddi ar gyfer y rhan fwyaf

- 5.14 Mae rhai gweithredwyr (23%) yn y sefyllfa ffodus o ddisgwyl gwneud digon o elw eleni i fuddsoddi'n sylweddol yn y busnes pe baent yn dewis gwneud hynny.

"Rydym yn buddsoddi mewn bloc toiledau newydd ac yn gobeithio y byddwn yn gwneud elw."

Parc carafannau, y De-orllewin

"Mae wastad wedi bod yn bolisi gennym i fuddsoddi'r holl arian rydyn ni'n ei wneud yn ôl yn y busnes."

Llety hunanddarpar, y Canolbarth

- 5.15 Fodd bynnag, nid oes gan lawer y modd o wneud hyn, a'u canlyniad gorau fyddai cael dau ben llinyn ynghyd a gwneud gwaith hanfodol.

"Cyfnod heriol yn gyffredinol. Mae costau ynni yn arbennig wedi codi i lefelau sy'n niweidio elw a'r gallu i fuddsoddi'n sylweddol."

Parc carafannau, y Gogledd

"Mae'r holl adnoddau wedi cynyddu mewn cost i'r pwynt o leihau proffidioldeb yn sylweddol o bob cyfeiriad. Mae hyn yn golygu nad oes dim byd yno i geisio tyfu'r busnes."

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

"Dwi'n gweithio fel ci am ddim arian."

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Os ydych chi heb ddimai ac yn gwenu yna o leiaf rydych chi'n hapus."

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

- 5.16 Mae llawer yn dweud ei bod yn anodd rhagweld proffidioldeb ar gyfer eleni ar hyn o bryd oherwydd bod gormod o bethau anhysbys o hyd. A fydd costau yn parhau i godi ar y gyfradd gyfredol? A fydd cwsmeriaid yn gallu fforddio mynd ar eu gwyliau? Yn ystod cyfnod ansicr, mae llawer yn gweld buddsoddiad yn ormod o risg.

“Mae newid yn ymddygiad defnyddwyr yn creu amgylchedd anhygoel o anrhagweladwy o ran gwybod faint o elw sy'n dod a phryd ... mae'r ansicrwydd hwn yn gwneud buddsoddiad yn y dyfodol yn ormod o risg.”
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Gallai newid mewn meini prawf ardrethi busnes effeithio ar fuddsoddiad yn y sector llety hunanddarpar

- 5.17 Dywed rhai gweithredwyr llety hunanddarpar y gallai'r 'rheol 182 diwrnod' eu gadael heb ddigon o arian i fuddsoddi yn eu busnes.

“Mae'r rheol 182 diwrnod o ran y dreth gyngor yn ein cyfyngu arnom ni yn wirioneddol oherwydd ei fod yn ansicr iawn faint o arian y gallwn ei fuddsoddi oherwydd y dreth uwch. Rydyn ni'n aros i weld beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.”
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

“Rydyn ni'n poeni am daro'r 26 wythnos yna – mae'r ddeddfwriaeth newydd yn mynd i'm rhoi mewn sefyllfa enbyd. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych yn ymarferol ond, pan fyddwch chi'n siarad â'r bobl ar lawr gwlad sy'n gorfod gwneud bywoliaeth, nid yw'n gwneud synnwyr. Ni fydd yr elw sy'n weddill sydd gennyf o fy musnes yn rhoi digon i mi fyw arno. Byddaf yn falch o fod allan ohono mewn ychydig flynyddoedd.”
Llety hunanddarpar, y Gogledd

Gwahaniaethau yn ôl sector a rhanbarth

- 5.18 Mae'r sector bwyta / tafarndai / caffis yn sefyll allan fel rhywbeth sy'n sylweddol fwy optimistaidd na'r sectorau eraill. Dywed tua hanner (53%) eu bod yn disgwyl gwneud digon o elw eleni i fuddsoddi'n sylweddol yn y busnes pe baent yn dewis gwneud hynny. Mae'n ymddangos bod yr optimistiaeth yn deillio o agor i gapasiti llawn a'r cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi dod i ben.

“Dwi'n meddwl ein bod ni'n gwneud yn dda. Yn amlwg, mae popeth yn cael ei agor wedi helpu llawer.”
Tafarn, y Gogledd


“Rwy'n meddwl bod busnes yn gwella ar y cyfan ... rwy'n meddwl y bydd pobl yn dechrau mynd allan yn fwy eleni.”
Tafarn, y De-orllewin

- 5.19 Mae'r gallu i fuddsoddi'n sylweddol hefyd yn uwch yng Nghanolbarth Cymru (32% o fusnesau) a De-ddwyrain Cymru (28%) o'u cymharu â De-orllewin Cymru (18%) a Gogledd Cymru (17%).

6. Cynaliadwydd

Gweithredu'n gynaliadwy

**C11 "Beth, os o gwbl, y mae eich sefydliad yn ei wneud ar hyn o bryd i weithredu'n fwy cynaliadwy?"
(Heb annog ticiwch bopeth sy'n berthnasol)**



Llawer o gamau cadarnhaol

- 6.1 Mae gweithredu'n fwy cynaliadwy yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn ei gymryd o ddifrif. Mae ystod gyfan o gamau gweithredu yn cael eu cymryd, a ddangosir uchod. Dim ond lleiafrif (19%) sy'n dweud eu bod yn gwneud 'dim byd yn arbennig'.

*"Rydym yn gwneud ein bara ein hunain ac mae gennym ein gwenyn mêl ein hunain."
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin*

“Rydym wedi gosod paneli solar yn ogystal â boeler biomas.”

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

“Cawsom wared ar blastig untro wyth mlynedd yn ôl.”

Atyniad, y Gogledd

“Rydym yn fferm organig, a dros y 30 mlynedd diwethaf rydym wedi datblygu system ailgylchu gynhwysfawr ac mae ein gwesteion yn dysgu amdani hefyd. Mae gennym finiau compost a hyd yn oed toiledau compost. Rydym yn ymfalchïo yn ein cynaliadwyedd.”

Llety hunanddarpar, y Canolbarth

“Rydym yn tyfu ein ffrwythau a’n llysiau ein hunain ac wedi bod yn plannu coed, ond eleni rydym wedi cael ein plagio gan gwningod yn bwyta’r holl llysiau.”

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

Rhwystrau rhag gweithredu'n fwy cynaliadwy

6.2 Hoffai rhai gweithredwyr gyflwyno mesurau newydd ond cânt eu hatal gan gyfyngiadau. Y ddau beth mwyaf cyffredin yw cyfyngiadau cynllunio (e.e. ar gyfer paneli solar) a chost / diffyg grantiau.

“Hoffem gael pwynt trydan ar gyfer y ceir a’r paneli solar ond ni allwn ei fforddio ar hyn o bryd.”

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

“Byddem wrth ein bodd yn buddsoddi’n fwy cynaliadwy ond nid oes gennym yr arian ar ei gyfer.”

Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

“Rydym eisiau gosod paneli solar ond nid yw’r cynllunio yn ein hardal yn caniatáu ar eu cyfer.”

Llety hunanddarpar, y Canolbarth

“Gwnaethom geisio mynd yn solar ond gwrthodwyd y caniatâd cynllunio.”

Parc carafannau, y Gogledd

Gall cwsmeriaid hefyd fod yn rhwystur

6.3 Mae rhai busnesau yn ymdrechu'n galed i addysgu eu cwsmeriaid am ymddwyn yn gynaliadwy. Mae'r hyn y gall y busnes ei gyflawni wedi'i gyfyngu gan ei gydweithrediad. Mae tuedd i rai pobl ar eu gwyliau fod yn wastraffus pan fyddant yn mwynhau ‘ysbryd y gwyliau’.


“Mae pobl yn rhoi’r gwres ymlaen yn uchel iawn ac yn defnyddio llawer o drydan oherwydd y gallant deimlo’n gyfforddus yn treulio gwyliau gyda llawer o wres gan mai cost rhywun arall yw hynny.”

Llety hunanddarpar, y Gogledd

“Mae pobl yn gallu bod yn hunllef ac nid ydyn nhw’n meddwl y dylen nhw ailgylchu ar eu gwyliau.”

Parc carafannau, y De-orllewin


Ymwybyddiaeth o Becyn Cymorth Cynaliadwy Busnes Cymru



Angen gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth

- 6.4 Mae tua un o bob pump (21%) o weithredwyr wedi clywed am y pecyn cymorth sydd ar gael gan Busnes Cymru i'w helpu i ddod yn fwy cynaliadwy. Mae rhai wedi cwblhau'r hunanasesiad. Mae lle i wneud rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth o'r pecyn cymorth.
- 6.5 Nid yw'r atebion yn amrywio'n sylweddol fesul sector, ond maent yn amrywio fesul rhanbarth. Mae ymwybyddiaeth yn uwch yn Ne-ddwyrain Cymru (32%) a Chanolbarth Cymru (28%) o'u cymharu â De-orllewin Cymru (18%) a Gogledd Cymru (16%).

Ceisio cyngor allanol



Safbwyntiau a chamau gweithredu cymysg ar gyngor allanol

- 6.6 Mae rhai busnesau wedi ceisio cyngor allanol defnyddiol ar gynaliadwyedd, ac wedi dod o hyd iddo – yn enwedig atyniadau (51%). Teimla eraill nad oes ei angen arnynt – yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru (54%).

- 6.7 Gall defnyddioldeb canfyddedig cyngor ddibynnu ar ddisgwyliadau ynghylch grantiau. Os nad oes grant i'w ganfod, weithiau gall y gweithredwr deimlo'n negyddol am y cyngor.

“Aethon ni at Busnes Cymru ond ni wnaethon nhw roi unrhyw gymorth i ni gan nad oes grantiau ar gael.”

Llety hunanddarpar, y Canolbarth

- 6.8 Ond mae eraill yn fwy cadarnhaol am gyfranogiad allanol.

“Gwnes fy adroddiad di-garbon drwy Busnes Cymru”

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

“Rydym yn rhan o Gynllun Gwobr Cadwraeth David Bellamy”

Parc carafannau, y Gogledd